

gynhyrchu nwyddau tra'r oedd yr holl draffwrthion ynglŷn â chodi melin ddwr newydd ar lannau afon Saint.

Un o'r cyntaf i ddefnyddio gwŷdd Jacquard

Yr hyn sy'n ddiddorol hefyd ynglŷn â'r cyfnod hwn rhwng 1850 ac 1870 yw'r ffaith fod Robert Roberts wedi dechrau defnyddio gwŷdd Jacquard cyn ei farwolaeth yn 1870. Daw'r dystiolaeth hon yn nodiadau'r mab pan ysgrifenna: "*fy nhad oedd y cyntaf i introdioc y Jack guard machine i Gymru*". Mae'n mynd rhagddo gan ddeud fod "*un o Dregarth*" (nid yw'n ei enwi) wedi ceisio hawlio'r anrhydedd hwnnw, gan "*geisio dallu'r werin anwybodus, yn eu plith, olygydd pwysig y Pwnc Cymraeg*". Gan anwybyddu'r ddadl ynglŷn â phwy oedd y cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio gwŷdd Jacquard, mae'n amlwg fod Robert Roberts wedi dechrau defnyddio'r ddyfais hon cyn 1870. Ond ymhle? A oedd wedi ei gosod yn y ffatri yn Stryd y Llyn neu yn ei felin newydd yn Nhyddyn y Pandy? Ac a fyddai nwyddau wedi parhau i gael eu gwneud â llaw os oedd gwŷdd Jacquard ar gael? Ac os oedd 'Carthen Pwllheli' wedi ei gwneud â llaw, pwy oedd yn gyfrifol am ei chynllunio – Robert Roberts, y tad, neu John Roberts, y mab?

John Roberts fu'n gyfrifol am gario'r busnes ymlaen wedi marwolaeth ei dad ym mis Medi 1870. Parhaodd gyda'r gwaith hyd 21ain o Fedi 1880. Am ddeng mlynedd yn unig y bu John Roberts yn gofalu am y busnes felly, er iddo fod ynghlwm â'r gwaith am tua phymtheng mlynedd cyn hynny, dan reolaeth ei dad. Mae'n bosibl felly, mai yn ystod y deng mlynedd yma y cynlluniwyd 'Carthen Pwllheli'. Ond unwaith eto, rhaid gofyn ymhle?

Roedd cyfaill i John Roberts (nas gwyddom ei enw) yn argymhell dod yn bartner ag ef ac ehangu'r ffatri yng Nghaernarfon. Prynodd John Roberts beiriant stêm llawer rhy fawr ar gyfer ei ddibenion, a thua'r un pryd cododd pris glo stêm i bunt y dull. Penderfynodd ei gyfaill hefyd i beidio â dod yn bartner. Gorfu i John Roberts roi "*y cap considro am fy mhen ac ystyried beth i'w wneud, oblegid fod fy elw yn mynd trwy y corn simne*".

Adeiladu Melin ym Mhontrug

Gwnaeth yn union yr hyn wnaethai ei dad rai blynyddoedd yn gynt, sef troi at ynni dŵr. Yr oedd melin Tyddyn y Pandy eisoes wedi ei thynnu i lawr ganddo, felly gwnaeth gais i Assheton Smith am lain o dir ym Mhontrug i adeiladu melin arall. Adeiladodd felin a thŷ yng Nghae Dôl Eiddyn, Pontrug tua 1876. (I'r rhai o'r darlennwyr sy'n gwyllo'r rhaglen 'Clwb Garddio' ar S4C, dyma safle Gerddi Seiont bellach – mae llawr uchaf y felin a adeiladwyd gan John Roberts yn gaffi.) Parhaodd gyda'r gwaith am dair blynedd, ond unwaith eto, daeth yn gyfnod o ddirwasgiad – y tro hwn yn y fasnach lechi, "*fel nad oedd y chwarelwyr o'r braidd yn gallu ennill digon i gadw corff ac enaid ynghyd heb son am gael dim (dillad) newydd*". Ac ar y chwarelwyr y dibynnai John Roberts i werthu ei nwyddau. Aeth pethau mor ddrwg fel nad oedd yn derbyn ond pymtheg swllt yr wythnos "*at gadw'r teulu, talu y ground rents, llogau y clwb trethi a dyledion masnach*". Yr oedd hefyd yn ystod y cyfnod hwn wedi ceisio sefydlu'r busnes yn gwmmi, ond un person yn unig a oedd yn fodlon prynu siâr ganddo, sef ei hen gyfaill I. Thomas, '*relieving officer*' Caernarfon.

Clwb Adeiladu yn meddiannu'r ffatri

Dirywiodd pethau i'r fath raddau fel nad oedd ganddo ond un dewis; gwerthu'r busnes. Cymerodd Clwb Adeiladu Cwm y Glo feddiant o'r ffatri a'r tŷ, ynghyd â gwerth £300 o beiriannau. Mae'n debyg fod y ffatri yng

Nghaernarfon wedi ei gwerthu hefyd, ond nid oes sierwydd pryd nac i bwy. Mae un cyfeiriad yn ei nodiadau bywgraffyddol yn crybwyll fod ei olynydd "*yn gwneud yn dda, tra'n deall dim ynghylch y busnes, oblegid saer coed ydoedd*".

Daeth cysylltiad John Roberts â'r busnes yng Nghaernarfon i ben ar 21ain o Fedi 1880, a symudodd y teulu i Lerpwl. Oddi yno, mudodd i'r America ar fwrdd yr S.S. Egypt, ond arhosodd Jane ar ôl. Ysgrifennodd rannau o'i nodiadau bywgraffyddol yn New Bedford, Massachusetts yn 1889. Byr fu ei arhosiad yn America. Erbyn 1893 roedd wedi dychwelyd i Lerpwl, ac yno yr ysgrifennodd weddill ei nodiadau bywgraffyddol. Arhosodd Mary, Margaret ac Ellen (ei ferched o'i briodas gyntaf) yn America, ond daeth ei holl blant o'i ail briodas yn ôl i Lerpwl. Priododd John â Jane neu Jenny Parry a alwai ei hun yn Delynores Lleifiad. Yn ôl traddodiad teuluol torrodd ei bys â thant telyn a bu farw o wenwyn gwaed.

Ymfudo i'r Amerig

Yn ei nodiadau, mae John Roberts yn galw ei hun yn John Arfon/Arvon Roberts, ond nid yw'n ymddangos fod hwn yn enw beddydd arno, ond iddo'i fabwysiadu'n ddiweddarach: ar ei fudo i'r America, o bosibl. Y mae'n od hefyd nad yw'n cyfeirio yn unman yn ei nodiadau at y garthen nac at y ffaith i unrhyw garthen o'i wneuthuried gael ei chyflwyno i aelod o'r teulu brenhinol.

Y mae traddodiad teuluol yn cyfeirio at ddwy garthen yn cael eu gwneud – un a gyflwynwyd i'r Frenhines Fictoria, a'r llall ar gadw gan y teulu. Rhwygwyd yr un deuluol yn ei hanner! Y mae un hanner, gyda llun Castell Caernarfon arno, yn parhau ym meddiant aelod o'r teulu. Ond bellach, rhaid amau a yw'r traddodiad am rwygo'r garthen yn ei hanner yn gywir. Efallai mai carthen yn cynnwys dim ond llun o Gastell Caernarfon sydd ar gael. Beth felly fyddai gwerth honno?

Y mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn rhoi terfyn ar rai o'r dadleuon a fu yn rhyfynau cynharach *Y Casglwr*, ond yn anffodus, yn gofyn mwy o gwestiynau. Gan fod John Roberts wedi cefnu ar ei ffatri a'i felin yng Nghaernarfon a Phontrug erbyn 1880, nid oedd yn bosibl iddo fod wedi cynllunio carthen oedd yn cynnwys y llun o Goleg Aberystwyth a luniwyd gan John Seddon yn 1885-86. Y mae dyddiadu Joseph, mab Edward Davies-Bryan, yn Aberystwyth (1882-1887) hefyd yn taflu dŵr oer ar y syniad mai o gyfeiriad y teulu hwn y daethai'r awgrym am gynnwys Coleg Aberystwyth ar garthen John Roberts.

Dwy garthen wahanol wedi'u cynhyrchu

Mae posibilrwydd cryf fod dwy garthen wahanol wedi eu cynhyrchu – y gyntaf yn cynnwys llun o Gastell Caernarfon yn unig, a'r ail yn cynnwys y castell a Choleg Aberystwyth. Os felly, gallai'r garthen wreiddiol fod wedi ei chynllunio gan Robert Roberts a/neu John



Ffenestr siop y Menai Woollen Factory yn Stryd y Llyn, Caernarfon. Yma y prentisiwyd John Roberts yn fachgen gyda'i dad, ac ef a fu'n gyfrifol am redeg y busnes o 1870 hyd 1880.

(Llun drwy gamiatd Gwasanaeth Archifau Gwynedd)

Roberts (ei fab) tua neu cyn 1868, sef dyddiad agor gwaith dŵr Caernarfon. Yr oedd Robert Roberts erbyn hynny yn defnyddio gwŷdd Jacquard. Mae'r ail garthen wedi ei chynllunio felly ar ôl 1885/86 er mwyn cynnwys llun John Seddon o Goleg Aberystwyth. Ond ni chafodd Ffatri Wlân Pwllheli hawl breiniol ar batrwm y garthen tan 1895. Ble bu'r patrwm gwreiddiol o 1880 hyd hynny? Pwy oedd y saer coed a fu mor llwyddiannus gyda'r felin yng Nghae Dôl Eiddyn, Pontrug wedi ymadawiad John Roberts? Ac am ba hyd y parhaodd ei lwyddiant, oherwydd erbyn dechrau'r 1890'au, roedd Cwmni Lake yn berchnogion y felin a hefyd y ffatri yn Stryd y Llyn. Yr enw arni erbyn hynny oedd Menai Factory.

Yn sgil y wybodaeth hon, rhaid gofyn hefyd o ble cafodd Ann Sutton (*The Commemorative Quilt*) y wybodaeth mai John Roberts oedd y gwehydd fu'n gyfrifol am y garthen wreiddiol.

Tua dwsin o'r carthenni yn dal ar gael

Gyda llaw, mae tystiolaeth fod tua dwsin o'r carthenni yn parhau ym meddiant gwahanol deuluoedd; ond rhaid pwsyleisio mai rhai yn cynnwys Castell Caernarfon a Choleg Aberystwyth ydynt, a phob un ond yn lliw coeh a llwydfelyn (gwyrd a llwydfelyn yw'r llall, a honnid ei bod yn hongian yn ffenestr siop Waterloo House, Caernarfon am flynyddoedd). Mae pawb sydd wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r carthenni yn bendant mai eiddo eu teidiau a'u neimiau oeddent yn wreiddiol, ac y mae hynny yn eu dyddio o leiaf i ddechrau'r gamrif ddiwethaf neu gynt. Gellir eu lleoli ym Mhenfro, Caernarfon, tair ym Môn, un yng Nghaerdydd (ond yn wreiddiol o Ddeiniolen), un arall yn Neiniolen, Clwydbont, Llanberis, Penisarwaen a Llanrug.

O.N. Roedd arfbais brenhinol a "*by Royal appointment...*" yn parhau uwchben y siop yn Stryd y Llyn, Caernarfon, hyd yr Ail Ryfel Byd. Siop Crane's (gwerthwyr pianos) a'r Central Garage oedd y safle hwnnw. Y safle erbyn heddiw yw siopau Stermat a Boots.

Dafydd Whiteside Thomas